Agorir y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd K. P. Hughes

# Rhaglen

## 1. Datganiad o ddiddordeb

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

## 2. Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, y Bwrdd Comisiynwyr neu Bennaeth y Gwasanaeth Tâl

## 3. Indemniadau i aelodau a swyddogion

(a) Adrodd bod y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 12 Mai, 2011 wedi penderfynu "i gytuno mewn egwyddor ar hyn o bryd bod y Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r pŵer i roi indemniadau fel y darperir ar gyfer hynny gan y Gorchymyn, a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y man."

(b) Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

**(Papur 'A')**

## 4. Adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(a) Ystyried adroddiad budd cyhoeddus ddosbarthwyd ar 25 Mawrth 2011 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliad i gŵyn o gamweinyddu yn erbyn y Cyngor. (Cyfeirnod Achos yr Ombwdsmon 200901501).

**(Papur 'B')**

(b) Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro.

**(Papur 'C').**

## 5. Adolygiad o drefniadau etholiadol Ynys Môn

(a) Adroddwyd - Bod y Rhybudd o Gynigiad canlynol wedi'i gyflwyno gan y Cynghorwyr K. P. Hughes, Aled Morris Jones, Bryan Owen, G. O. Parry, MBE ac Eric Roberts i'r cyfarfod o'r Cyngor Sir ar 12 Mai 2011:-

"Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro alw cyfarfod arbennig o Gyngor Sir Ynys Môn i drafod cyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddyddiedig 28 Mawrth, 2011 i adolygu ymhellach drefniadau etholiadol Ynys Môn.

Bwriedir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn 30 Medi, 2011.

Ni fydd yr amserlen hon yn caniatáu cyfnod cychwynnol o ymgynghori gyda chymunedau Ynys Môn ar ddechrau'r adolygiad."

(b) Adrodd bod y Cyngor Sir, yn dilyn ystyried yr uchod, wedi penderfynu "gohirio ystyried y mater a bod trefniadau'n cael eu gwneud i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir i drafod y mater mewn manylder o fewn y pythefnos/tair wythnos nesaf."

(c) Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr Dros Dro.

**(Papur 'CH')**